



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Paratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid

Rhan 3: Cynllunio

Canllawiau Statudol o dan Ddeddf Newid
yn yr Hinsawdd 2008

Cydnabyddiaeth

Wrth baratoi'r Canllawiau hyn, mae canllawiau anstatudol sy'n bodoli eisoes, sef [Adapting to climate change: Workbook for public sector organisations](#) (Adaptation Scotland, 2011) yn bennaf, wedi dylanwadu arnom. Mae'r ddogfen yn ei thro yn cydnabod ei dyled i ganllawiau eraill, gan gynnwys canllawiau [Partneriaeth Effeithiau Hinsawdd y DU](#) (UKCIP) a [International Council for Local Environmental Initiatives \(ICLEI\) Canada](#).


Os oes gennych unrhyw syniadau o ran gwella'r Canllawiau, cysylltwch â Thîm Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru:

climate-change@cymru.gsi.gov.uk

0300 060 4400 (Cymraeg)

0300 060 3300 (Saesneg)

Cyhoeddwyd Rhan 3 ym mis Mawrth 2013



Rhan 3: Cynllunio

Mae Rhan 3 yn ymwneud â defnyddio gwybodaeth a grëwyd gan ymchwiliadau a wnaed yn Rhan 2 i ddatblygu a chynllunio ar gyfer ymaddasu; gallai hyn gynnwys datblygu cynllun ar gyfer ymaddasu ar wahân neu gallai ganolbwyntio ar integreiddio camau ymaddasu o fewn polisïau a chynlluniau sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r penodau'n cynnig arweiniad a thempledi ar gyfer datblygu cynllun ar gyfer ymaddasu, yn ogystal â sefydlu data sylfaenol a data adrodd, a fydd yn helpu gyda monitro ac adolygu yn Rhan 5.

Mae'r rhan hon yn cynnwys

- **Pennod 7:** Sefydlu datganiadau o weledigaeth, nodau ac amcanion **2**
- **Pennod 8:** Dynodi a blaenoriaethu opsiynau ar gyfer ymaddasu **5**
- **Pennod 9:** Pennu data sylfaenol a dangosyddion **14**
- **Pennod 10:** Creu cynllun ar gyfer ymaddasu **18**

Pennod 7: Sefydlu Datganiadau o Weledigaeth, Nodau ac Amcanion

Diben	Datblygu datganiadau o weledigaeth a sefydlu nodau ac amcanion ar gyfer eich gwaith ymaddasu neu gynllun gweithredu i ymaddasu.
Cynnwys	• Datganiadau o weledigaeth • Gosod nodau ac amcanion

Cyflwyniad

Dylai canlyniadau'r gwaith asesu perygl a risg yn Rhan 2 roi arwydd cryf i chi o'r effeithiau newid hinsawdd sy'n debygol o effeithio fwyaf ar eich sefydliad. Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu datganiadau o weledigaeth, nodau ac amcanion a fydd yn gyrru'r gwaith o ganfod a gweithredu camau ymaddasu yn eu blaen.

Datganiadau o weledigaeth

Gall datganiadau o weledigaeth fod yn ddefnyddiol i adeiladu dealltwriaeth gyffredin o'r her sy'n wynebu eich sefydliad a sut y gallai fod angen iddo ymddangos yn y dyfodol. Efallai yr hoffech chi ystyried:

- Datblygu datganiadau o weledigaeth sy'n disgrifio senarios ar gyfer y 2020au, y 2050au a'r 2080au a chynnig cyfle i ddisgrifio sut y gallai newidiadau yn yr hinsawdd a chamau ymaddasu effeithiol fod wedi effeithio ar wahanol adrannau, meysydd gwasanaeth a chymunedau.
- Datblygu datganiadau o weledigaeth yn gysylltiedig ag adrannau, meysydd gwasanaeth neu gymunedau unigol gan gynnig cyfle i godi ymwybyddiaeth o risgiau a chyfleoedd allweddol a chamau ymaddasu i'w blaenoriaethu.

Astudiaeth Achos

Mae Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cynnwys gweledigaeth o Gymru yn 2050 sy'n rhoi darlun o sut y byddai Cymru fwy cynaliadwy a chadarn yn wahanol i'r Gymru lle rydym yn byw nawr. Isod, ceir detholiad o'r weledigaeth.

Cymru yn 2050

Ceir cydnabyddiaeth ym mhob rhan o gymdeithas o'r angen i fyw'n gynaliadwy a lleihau ein hól troed carbon. Mae pobl yn gweithredu i leihau defnydd adnoddau, defnydd ynni a gwastraff. Maent yn canolbwyntio'n fwy pendant ar gyfrifoldeb amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, ac ar faterion ansawdd bywyd lleol, ac mae llai o bwyslais ar brynu. Egwyddorion allweddol Llywodraeth ar bob lefel yw cyfranogiad a thryloywder, ac mae unigolion wedi dechrau gwarchod adnoddau naturiol.

Mae gennym gymunedau cryf, gweithgar, cydnerth a chefnogol lle mae pobl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a sut maent yn effeithio ar bobl eraill. Mae Cymru'n gymdeithas ddwyieithog, sy'n decach ac yn fwy cyfartal, ac mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn llai. Mae lefelau cyflogaeth yn uchel, ac mae cydbwysedd bywyd-gwaith pobl yn well, gyda mwy o gyfleoedd i wirfoddoli. Mae pobl yn gweithio'n agosach i'w cartref.

Mae llawer o gymunedau'n cymryd camau... i sicrhau nad yw effeithiau newid yn yr hinsawdd yn arwain at gynnydd mewn allgáu cymdeithasol yng Nghymru. Mae pobl yn weithgar o ran cynnal ansawdd yr amgylchedd lleol lle maent yn byw.

Mae tai o ansawdd da i bawb yn rhywbeth arferol. Mae cartrefi a busnesau'n llawer mwy effeithlon o ran ynni ac maent yn gynaliadwy... Caiff datblygiadau a seilwaith newydd eu lleoli, eu dylunio a'u codi i gyd-fynd â'u hinsawdd ar hyd eu hoes, ac i leihau'r angen i deithio.

Mae llawer mwy o bwyslais ar ofal iechyd ataliol mewn cymdeithas, ac mae llawer mwy o bobl yn byw bywydau iach drwy fwyta'n well a gwneud ymarfer corff yn fwy rheolaidd fel rhan o'u bywyd bob dydd. Mae cynnydd mewn lleoleiddio yn golygu bod pobl yn bwyta mwy o fwyd lleol ffres tymhorol, sy'n rhoi hwb i amaethyddiaeth a garddwriaeth yng Nghymru. Caiff tarddiad bwyd ei ystyried yn llawer mwy gofalus. Caiff llawer mwy o fwyd ei fasnachu'n lleol lle bo'n bosibl, a'i fasnachu'n deg â'r byd datblygol lle nad yw'n bosibl. Mae rhandiroedd a garddio cymunedol wedi cynyddu'n aruthrol. Mae'r diwydiant amaethyddol wedi ymaddasu i hinsawdd sy'n newid, gan gynnwys darparu ar gyfer effeithiau hafau cynhesach, a newidiadau mewn defnydd a rheoli tir.

Mae tirweddau hanesyddol Cymru wedi cael eu gwarchod, ac rydym wedi dysgu gwersi o'n gorffennol sy'n llywio'r ffordd y byddwn yn rheoli yn y dyfodol. Bellach rydym hefyd yn rheoli tir ar gyfer y gwasanaethau ecosystem ehangach y gall eu cynnig, gan gynnwys storio carbon, ansawdd dŵr, rheoli llifogydd, ansawdd tirwedd a choridorau ar gyfer bywyd gwyllt i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd. O ganlyniad, mae'r golled o ran bioamrywiaeth yn cael ei hatal ac mae nifer, ystod ac amrywiaeth genetig bywyd gwyllt wedi gwella. Caiff ein rhyng-ddibyniaeth ar y rhywogaethau eraill rydym yn rhannu'r blaned â nhw ei deall a'i gwerthfawrogi'n well.

Gosod nodau ac amcanion

Mae dynodi nodau ac amcanion ar gyfer eich gwaith ymaddasu yn cynnig cyfle i ailgysylltu â'r sawl yr effeithir arnynt gan yr effeithiau allweddol rydych chi wedi'u dynodi, a gweithredu'r camau ymaddasu sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw.

Dylai **nodau** ddarparu datganiad cyffredinol o fwriad yn esbonio'r cyfeiriad y mae eich corff yn dymuno symud iddo yn nhermau ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft nod Fframwaith Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru yw:

...cynnwys ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yn y broses o wneud penderfyniadau, cyflawni camau gweithredu ystyrlon sy'n gwella gallu Cymru i ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd a chyflawni ein dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf Newid Hinsawdd (2008). Fframwaith Ymaddasu Newid Hinsawdd Cymru, Hydref 2009.

Dylai **amcanion** fod yn fwy penodol a dylent gyfeirio at y ffyrdd mae eich sefydliad yn bwriadu goresgyn yr effeithiau a'r canlyniadau sydd wedi'u dynodi (gweler Penodau 4, 5 a 6).

Amcanion enghreifftiol:

- casglu a lledaenu gwybodaeth ansawdd uchel am newidiadau disgwylidig i wasanaethau, asedau, seilwaith a chymunedau oherwydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd;
- dynodi, gweithredu, monitro a gwerthuso camau ymaddasu sy'n adeiladu'r gallu i ymaddasu ac yn cynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau penodol dros gyfnodau penodol o amser;
- comisiynu ymchwil a fydd yn galluogi gwell dealltwriaeth am y risgiau sy'n gysylltiedig ag effaith benodol;
- dynodi a gweithredu trefniadau ar gyfer cofnodi effeithiau digwyddiadau tywydd, a newidiadau graddol yr arsylwir arnynt er mwyn deall yn well effeithiau newid hinsawdd y dyfodol.

Pennod 8: Dynodi a Blaenoriaethu Opsiynau ar Gyfer Ymaddasu

Diben	Dynodi opsiynau ar gyfer ymaddasu a'u blaenoriaethu
Cynnwys	• Mathau o opsiynau ar gyfer ymaddasu • Gweithio gydag eraill i ganfod opsiynau • Blaenoriaethu opsiynau ar gyfer ymaddasu • Cyllido gweithredu i ymaddasu

Cyflwyniad

Y cam nesaf yw dynodi opsiynau ar gyfer ymaddasu mewn ymateb i'r bygythiadau a'r cyfleoedd sydd wedi'u dynodi drwy waith yn 'Rhan 2: Ymchwilio'. Gellir dadansoddi'r opsiynau hyn a'u gosod mewn fframiau amser tymor byr, canolig a hir, a dylent adlewyrchu gweledigaeth, nodau ac amcanion eich sefydliad (Pennod 7).

Mathau o opsiynau ar gyfer ymaddasu

Yn ôl Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU, mae ymatebion ymaddasu'n perthyn i un o ddau gategori:

- Adeiladu'r Gallu i Ymaddasu
- Cyflenwi Gweithredoedd Ymaddasu

Mae **Adeiladu'r gallu i ymaddasu** yn golygu datblygu gallu eich sefydliad i ymateb yn effeithiol i newid yn yr hinsawdd. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnwys:

- Casglu a rhannu gwybodaeth (er enghraifft cynnal ymchwil, monitro data a chofnodion sefydliadol, a chodi ymwybyddiaeth drwy fentrau addysg a hyfforddi).
- Creu fframwaith sefydliadol cefnogol (newid safonau, deddfwriaeth a chanllawiau ymarfer gorau, a datblygu polisiâu, cynlluniau a strategaethau priodol).
- Creu strwythurau cymdeithasol cefnogol (newid systemau sefydliadol mewnol, datblygu personél neu adnoddau eraill i weithredu'r camau ymaddasu, a gweithio mewn partneriaeth).



Ffynhonnell: Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU, 2010, nodyn Canllaw, 'Dynodi opsiynau ar gyfer ymaddasu'.

Mae **Cyflenwi Gweithredoedd Ymaddasu** yn golygu cymryd camau ymarferol naill ai i leihau'r peryglon mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd neu fanteisio ar gyfleoedd cadarnhaol a gallent amrywio o ddatrysiadau technoleg isel syml i brosiectau seilwaith ar raddfa fawr. Gall gweithgareddau o'r fath gynnwys:

- Derbyn yr effeithiau, ysgwyddo'r colledion sy'n codi o'r risgiau hynny (e.e. ymgilio rheoledig o godiad yn lefel y môr).
- Gwrthbwyso colledion drwy rannu neu daenu'r risgiau neu'r colledion (e.e. drwy yswiriant).
- Osgoi neu leihau amlygrwydd i risgiau i'r hinsawdd (e.e. adeiladu amddiffynfeydd llifogydd newydd neu newid y lleoliad neu'r gweithgareddau).
- Manteisio ar gyfleoedd newydd (e.e. ymgymryd â gweithgaredd newydd neu newid arferion i fanteisio ar amgylchiadau hinsawdd newidiol, megis datblygu gwasanaethau newydd).

Ffordd arall o ystyried opsiynau ar gyfer ymaddasu yw meddwl am y mathau o gamau y gellir eu cymryd; gallai'r rhain gynnwys:

- Dros dro e.e. defnyddio ymbarelau mawr i leihau cynnydd gwres solar.
- Rheolaethol e.e. cyflwyno oriau hyblyg, hwyluso gweithio o gartref.
- Technegol e.e. adnewyddu adeiladau, gwella amddiffynfeydd llifogydd.
- Strategol e.e. comisiynu adeilad newydd gyda chynllun sy'n gwrthsefyll hinsawdd fel rhan o raglen adeiladu cyfalaf a gynllunnir.

Dynodi opsiynau ar gyfer ymaddasu

Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd:

1. yn ôl maes sefydliadol neu faes gwasanaeth; rhestru'r holl effeithiau ac opsiynau perthnasol ar gyfer pob maes gwasanaeth;
2. yn ôl effaith; rhestru pob effaith, yna dynodi opsiynau ar gyfer gwasanaethau perthnasol;
3. yn ôl newidiadau hinsoddol, megis lefel y môr yn codi, cynnydd mewn tymheredd etc.

Isod ceir enghraifft o dabl y gellid ei ddefnyddio ar gyfer dynodi opsiynau ar gyfer ymaddasu.

Effaith (ar y gwasanaeth a ddarperir neu ar sefydliad)	Opsiynau ar gyfer ymaddasu	Amserlen	Sefydliad/adran/ cymuned arweiniol
Risg cynyddol o ddifrod i adeiladau oherwydd llifogydd dŵr arwyneb	Adeiladu'r gallu i ymaddasu		
	Dynodi'r adeiladau sydd mewn perygl o lifogydd	6 mis nesaf	Asiantaeth yr Amgylchedd/ Rheolwr Ystad
	Codi ymwybyddiaeth am berygl llifogydd i adeiladau ymhlith perchnogion adeiladau, cynllunwyr a'r gwasanaethau brys	Parhaus	Asiantaeth yr Amgylchedd/ Tîm Rheoli Risg Llifogydd/Timau Rheoli Risg/Cydgysylltwyr Gwasanaethau Brys
	Sicrhau bod polisiau cynllunio'n hybu defnydd o Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy	12 mis nesaf	Adran Cynllunio'r Awdurdod Lleol
	Gweithio mewn partneriaeth gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ymatebwyr Brys	Parhaus	Asiantaeth yr Amgylchedd Ymatebwyr Brys
	Cyflenwi Gweithredoedd Ymaddasu		
	Adolygu a gwella yswiriant lle bo'n bosibl	3 mis nesaf	Cyllid
	Adolygu lleoliad gwasanaethau sydd mewn perygl	6 mis nesaf	Iechyd Cyhoeddus Gwasanaethau Cymdeithasol
	Canfod cyfleoedd ar gyfer ardaloedd storio llifogydd sy'n annog twf bioamrywiaeth	3 mis nesaf	Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Ffyrdd i ddynodi opsiynau ar gyfer ymaddasu gyda phobl eraill

Mae'n ddefnyddiol tynnu ar wybodaeth pobl eraill, a chynnwys amrywiaeth o staff, partneriaid a rhanddeiliaid yn y broses o ddynodi opsiynau ar gyfer ymaddasu.

Byddant yn gallu dynodi ymhle mae camau eisoes wedi'u cymryd neu ar waith (gweler y rhestr ym Mhennod 1), a nodi cyfleoedd i adeiladu ar raglenni sy'n bodoli. Mae gweithdy'n ffordd dda i ddod â phobl at ei gilydd a thanio syniadau am weithredoedd ymaddasu i ymdrin â'r risgiau sy'n flaenoriaeth.

Fel arall, gallech ddymuno trafod a dynodi opsiynau ar gyfer ymaddasu gyda thimau unigol o randdeiliaid drwy gyfres o gyfarfodydd, ac adeiladu darlun, y gallai eich tîm craidd o gydweithwyr a rhanddeiliaid ei ddwyn ynghyd a'i asesu. Bydd dewis dull gweithredu yn dibynnu ar amser, adnoddau a maint a chwmpas eich sefydliad.

Anelwch at ddynodi amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ymaddasu (gan ddefnyddio'r math o gamau Adeiladu Gallu i Ymaddasu a Chyflenwi Gweithredoedd Ymaddasu a restrir uchod fel canllaw), y gellir eu gweithredu'n unigol neu ar y cyd. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol:

- Opsiynau **diedifar** a fydd yn cyflenwi buddion sy'n uwch na'u costau, beth bynnag fydd graddau'r newid yn yr hinsawdd.
- Opsiynau **edifeirwch isel** a fyddai'n cyflenwi buddion uchel am gostau gymharol isel ac yn ceisio cynyddu'r enillion ar y buddsoddiad pan fydd sicrwydd y risgiau cysylltiedig yn isel.
- Opsiynau **ennill-ennill** sy'n codi eich gallu i ymaddasu, a hefyd yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol neu economaidd eraill.
- Opsiynau **rheolaeth hyblyg neu addasol** sy'n eich galluogi i sefydlu opsiynau ar gyfer ymaddasu cynyddol.

I gasglu syniadau am opsiynau ar gyfer ymaddasu sy'n addas i'ch sefydliad chi, edrychwch ar beth mae pobl eraill yn ei wneud neu wedi'i wneud; edrychwch ar y cynlluniau ymaddasu sy'n cael eu datblygu mewn sefydliadau eraill neu ardaloedd eraill yn y DU. Neu edrychwch ar Knowledge Hub Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys adnoddau a dogfennau ar gyfer sectorau a sefydliadau gwahanol i'w helpu i baratoi ar gyfer y canlyniadau a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

Drwy broses iterus, gallai fod angen i chi oedi wrth ddynodi'r opsiynau ar gyfer ymaddasu os oes angen rhagor o ymchwili i risgiau ac opsiynau.

Yn yr un modd gallai penderfyniad ymwybodol i wneud dim byd fod yn ymateb dilys a phriodol gydag effeithiau blaenoriaeth isel neu mewn sefyllfaoedd lle mae ffactorau anhinsoddol yn gorbwyso'r peryglon i'r hinsawdd. Fodd bynnag ni ddylai penderfyniad i wneud dim byd fod yn sefyllfa ddiodyn, a dim ond ar ôl ystyriaeth ofalus o'ch risgiau hinsoddol ac opsiynau ar gyfer ymaddasu y dylid gwneud hynny. Gellid monitro ac adolygu penderfyniad o'r fath yn barhaus i sicrhau nad oes dim wedi newid sy'n golygu bod angen i chi newid eich safbwynt.

Astudiaeth Achos

Sut y gwnaeth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru nodi opsiynau ar gyfer ei Adroddiad Ymaddasu¹

Yn 2010 paratôdd Asiantaeth yr Amgylchedd ei Adroddiad Ymaddasu ar gyfer Llywodraeth Cymru a Defra. Nodwyd eu holl weithgareddau mewn modd systematig, edrychwyd ar y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a datblygwyd cynlluniau gweithredu i ymdrin â'r risgiau hynny. Gwnaethant asesu'r effaith bosibl ar eu hamcanion drwy ddefnyddio pedwar o feini prawf:

- **Pwysigrwydd** - pwysigrwydd yr effaith i Asiantaeth yr Amgylchedd?
- **Agosrwydd** - pryd y bydd angen i amcanion, adnoddau neu'r broses gyflenwi newid mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd.
- **Inertia** - pa mor gyflym y gallant ymaddasu.
- **Adnoddau** - yr ymdrech sy'n rhaid iddynt ei wneud i ymaddasu.

Blaenoriaethu opsiynau ar gyfer ymaddasu

Er mwyn mireinio a blaenoriaethu eich rhestr o opsiynau ar gyfer ymaddasu, bydd angen i chi eu gwerthuso.

Mae tri cham allweddol:

- 1) Ystyried ffactorau a allai effeithio ar eich opsiynau ar gyfer ymaddasu
- 2) Gwerthuso opsiynau ar gyfer ymaddasu
- 3) Cyllido opsiynau ar gyfer ymaddasu

1. Ystyried ffactorau a allai effeithio ar weithredu eich opsiynau ar gyfer ymaddasu; gallai'r rhain fod yn wyddonol, cymdeithasol, gweithrediadol, amgylcheddol neu ariannol.

Ceir enghreifftiau o yrwyr a chyfyngiadau nodweddiadol yn Nhabl 1.

Yna ystyriwch sut y gellir goresgyn y cyfyngiadau, a sut y gellid troi'i gywrwr yn gyfleoedd. Er enghraifft gallai un o'r cyfyngiadau mwyaf mynych fod yn ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r risgiau newid hinsawdd a'r cyfleoedd ar gyfer ymaddasu ar draws staff a phartneriaid eich sefydliad. Un ffordd y gallwch oresgyn y cyfyngiad hwn yw datblygu gallu i ymaddasu drwy godi ymwybyddiaeth a hyfforddi.

¹ <http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/publications/130528.aspx>

Tabl 1: Gweithredu opsiynau ar gyfer ymaddasu - gyrwyr a chyfyngiadau

Gyrwyr	Cyfyngiadau
Ymchwil, deddfwriaeth, polisi neu ganllawiau cyfredol neu newydd	Diffyg gwybodaeth
Cyfleoedd cyllido	Dealltwriaeth gyfyngedig o risgiau a pheryglon hinsawdd - cyfredol a rhagamcanedig
Argaeledd staff	Diffyg polisïau, safonau, rheoliadau a chanllawiau cynllunio cefnogol
Argaeledd adnoddau allanol	Cyfyngiadau cyfreithiol neu reoleiddiol cyfredol
Arweinyddiaeth wleidyddol	Capasiti staff
Canlyniadau peidio â gweithredu (lefel uwch o beryglon)	Ewyllys gwleidyddol
Buddion gweithredu (cynyddu'r gallu i ymaddasu a lleihau costau e.e. cynnal a chadw)	Diffyg argaeledd neu fynediad cyfyngedig at y technolegau priodol
Partneriaethau	Cost opsiynau ar gyfer ymaddasu a chyllidebau cyfyngedig
	Natur gystadleuol a thymor byr gorwelion cynllunio
	Anhyblygedd cymdeithasol/diwylliannol/ariannol
	Effeithiau ar bolisïau lliniaru

Gallech ddynodi'r rhain a'u rhestru mewn colofn arall o'ch tabl (gweler [llyfr gwaith](#)) o opsiynau ar gyfer ymaddasu, fel y dangosir isod.

Effaith (ar y gwasanaeth a ddarperir neu ar sefydliad)	Opsiynau ar gyfer ymaddasu	Amserlen	Adran arweiniol	Ffactorau sy'n effeithio ar weithredu (gyrwyrr a chyfyngiadau)
Risg gynyddol o ddifrod i adeiladau oherwydd llifogydd dŵr arwyneb	Adeiladu'r Gallu i Ymaddasu			
	Dynodi'r adeiladau mewn perygl o lifogydd	6 mis nesaf	Rheolwyr eiddo/ystâd	
	Codi ymwybyddiaeth am berygl llifogydd i adeiladau ymhlith perchnogion adeiladau a'r gwasanaethau brys	Parhaus	Asiantaeth yr Amgylchedd	
	Sicrhau bod polisïau cynllunio'n hybu defnydd o Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy	12 mis nesaf	Adran Cynllunio Awdurdod Lleol	
	Gweithio mewn partneriaeth gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ymatebwyr Brys	Parhaus	Asiantaeth yr Amgylchedd Ymatebwyr Brys	

2. **Cytuno ar feini prawf y byddwch yn gwerthuso eich rhestr o opsiynau ar gyfer ymaddasu yn eu herbyn**, ac asesu pob opsiwn yn ei dro. Eich ystyriaeth gyntaf ddylai fod y graddau y gall yr opsiynau helpu i gyflawni eich amcanion strategol ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.

Eisoed dylech fod wedi dynodi'r nodau ac amcanion fel y'u disgrifir ym Mhennod 7. Gallech hefyd ystyried:

- Effeithlonrwydd - ni ddylai'r weithred effeithio ar feysydd eraill er gwaeth.
- Hyblygrwydd - a yw'n hyblyg ac a fydd yn caniatáu ar gyfer addasiadau a gweithredu cynyddol?
- Cynladwyedd - a yw'n cyfrannu at amcanion cynladwyedd?
- Ymarferol - a oes modd rhoi'r weithred ar waith yn ôl amserlen berthnasol?
- Cyfreithlondeb - a yw'n dderbyniol yn wleidyddol ac yn gymdeithasol?

- Brys - pa mor gyflym mae angen gweithredu?
- Costau - ystyriwch gostau cymdeithasol ac amgylcheddol, nid economaidd yn unig.
- Cadernid - a yw'r opsiwn yn gadarn dan amrywiaeth o ragamcanion hinsawdd y dyfodol?
- Synergeddau/cydlunu ag amcanion strategol eraill - a yw'n helpu i gyflawni amcanion eraill?
- Ffactorau eraill y mae eich sefydliad a'i bartneriaid a/neu randdeiliaid yn eu hystyried yn bwysig.

Cyllido gweithredu i ymaddasu

3. Bydd angen i chi ystyried a oes modd cyllido'r opsiynau ar gyfer ymaddasu, a sut mae gwneud hynny. Gall buddsoddi mewn gweithredoedd lle mae'r enillion yn debygol o fod yn rhai tymor hir fod yn achos busnes anodd ei gyflwyno, yn enwedig pan fo cyllidebau'n dynn. Wrth gyllidebu ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd, bydd yn bwysig ystyried y canlynol:

- Pa weithredoedd y gellir eu cynnwys mewn prosiectau, cylchoedd cynnal a chadw neu wariant sy'n bodoli eisoes? Defnyddiwch y rhestr o weithredoedd ymaddasu a grëwyd gennych ym Mhennod 1 i nodi sut y gellir cynnwys gweithredoedd newydd mewn gwaith cyfredol.
- Pa weithredoedd y bydd angen gwariant newydd ar eu cyfer?
- Oes yna gyfnod talu'n ôl ar gyfer y weithred (e.e. gweithred sydd â chyd-fuddiant lliniaru)?
- Beth yw'r arbedion posibl dros gyfnod y gwelliant?
- Beth yw costau cylch oes y prosiect?
- Oes cyllid ar gael o fewn cyllideb y sefydliad?
- Pa ffynonellau cyllido amgen sydd ar gael?
- Oes costau cyfreithiol neu yswiriant yn gysylltiedig â pheidio â gweithredu?

Isod ceir rhestr o'r mathau o adnoddau a allai gynorthwyo â gweithrediad eich cynllun ar gyfer ymaddasu.

Mathau o adnoddau a allai gynorthwyo â gweithrediad eich cynllun ar gyfer ymaddasu

Categori	Engbreiffiau
Cyllid prosiect mewnol	Datblygu'r Cynllun ar gyfer Ymaddasu i gyflenwi gweithgareddau codi ymwybyddiaeth Cronfeydd arbennig Cyllid rheoli risg llifogydd
Prosiectau Cydweithredol	Gweithio gyda sefydliadau eraill i ddynodi risgiau llifogydd dŵr arwyneb, neu gyflenwi rhybuddion cyhoeddus os ceir tywydd eithafol
Amser staff	O fewn llwyth gwaith cyfredol: e.e. adeiladu ymaddasu i newid yn yr hinsawdd i weithgarwch cyfathrebu/addysg cyfredol gyda deiliaid tai neu fusnesau Amser staff ychwanegol: e.e. datblygu canllawiau cynllunio ar ymaddasu i newid yn yr hinsawdd
Ymgorffori mewn manylebau contract	Sicrhau bod contractau adeiladu a chynnal a chadw newydd yn ystyried risgiau newid yn yr hinsawdd ac opsiynau ar gyfer ymaddasu
Cyllidebau cyfredol	Cyflenwi hyfforddiant ac addysg ar ymaddasu i newid yn yr hinsawdd drwy strwythurau hyfforddi cyfredol
Cyllideb a ail-ddyrannwyd	Ailddyrannu adnoddau o ymgyrchoedd glanhau i fesurau ymaddasu rhagweithiol
Cyllid cylchol	Ail-fuddsoddi arbedion o fesurau arbed ynni a dŵr i fesurau ymaddasu
Cyngor a chymorth gan sefydliadau eraill	Manteisio ar gyngor a chymorth gan sefydliadau eraill.

Byddwch chi neu eich tîm ymaddasu yn debygol o fod wedi gofyn am fewnbwn uwch reolwyr a phenaethiaid adran i ateb y cwestiynau uchod. Gwnewch gynllun ariannol manwl a/neu ystyriwch y trefniadau cyllidol mor fanwl â phosibl, gan y bydd hyn yn hwyluso'r cyfnod gweithredu.

Pennod 9: Pennu Data Sylfaenol a Dangosyddion

Diben	Diffinio set o ddangosyddion a data sylfaenol ar gyfer datblygu targedau a mesur cynnydd.
Cynnwys	• Data sylfaenol • Dangosyddion i fesur cynnydd

Cyflwyniad

Defnyddir data sylfaenol fel sail ar gyfer gwerthuso perfformiad. Mae'n cyfeirio at wybodaeth, a gymerir yn aml fel ciplun mewn amser, sy'n disgrifio statws cyfredol y newidynnau sy'n cael eu hasesu. Gall data sylfaenol ddarparu gwybodaeth am sensitifrwydd cyfredol eich sefydliad i effeithiau newid yn yr hinsawdd a gall hefyd helpu i ddynodi ffactorau sydd â'r potensial i ddylanwadu ar y gallu i ymaddasu.

Mae dangosyddion yn cofnodi cynnydd at gyflawni amcanion a/neu gamau unigol a gallant gynnwys cerrig milltir.

Bydd dynodi gwybodaeth sylfaenol gadarn yn caniatáu i chi fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd gweithredoedd ar gyfer ymaddasu.

Gall gwaith i ddynodi dangosyddion ar gyfer ymaddasu fod yn heriol ac yn gymhleth.

Data sylfaenol

Gall y broses o sefydlu data sylfaenol amrywio o drylwyr (yn cyffwrdd â sensitifrwydd, y gallu i ymaddasu, amlygrwydd etc.) i fras (dethol un neu ddau o ddangosyddion enghreifftiol yn unig). Lle bo'n bosibl, dylech ddefnyddio ffynonellau data a dangosyddion i leihau baich casglu data. Er enghraifft, bydd ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar amrywiaeth o wasanaethau a gwaith cyfredol eich sefydliad, felly gallai dangosyddion sefydliadol cyfredol, neu rai a gasglwyd ar lefel genedlaethol ddarparu dangosyddion priodol o newid a chynnydd. Mae enghreifftiau'n cynnwys: mapiau llifogydd, Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd y DU, data ansawdd aer, mynegai amddifadedd.

Bydd dethol data a dangosyddion sydd eisoes yn bodoli hefyd yn galluogi cydweithwyr a phartneriaid i ddynodi effaith newid yn yr hinsawdd ar eu canlyniadau mesuradwy a gwaith cyfredol (fel y'i nodir ym Mhennod 1).

Bydd eich dewis o ddangosyddion yn dibynnu ar y gweithredoedd rydych chi wedi'u blaenoriaethu yn eich cynllun ar gyfer ymaddasu. Gallent gynnwys data meintiol (e.e. canran y tenantiaid cyngor mewn ardaloedd o risg llifogydd sydd ag yswiriant) neu ddata ansoddol (e.e. cynnydd mewn ymwybyddiaeth gyhoeddus o'u risg o lifogydd).

Dangosyddion ar gyfer mesur cynnydd

Ceir dau fath gwahanol o ddangosydd:

- (i) Mesurau cynnydd - sy'n mesur cynnydd yn erbyn y camau allweddol mewn proses yn arwain at bwynt terfyn. Gallai'r rhain gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r angen i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd neu gynnydd eich sefydliad yn datblygu cynllun ar gyfer ymaddasu (yn erbyn pum cam y Llyfr Gwaith hwn).
- (ii) Dangosyddion canlyniad – sy'n mesur cynnydd at ganlyniad penodol. Mae'r rhain yn datgelu mwy am effeithiolrwydd gweithred ymaddasu, megis 'nifer y marwolaethau o glefydau'n gysylltiedig â gwres yn ystod 3 mis poethaf y flwyddyn'. Fodd bynnag mae'r mesurau hyn yn ddibynnol ar ddigwyddiadau tywydd neu dueddiadau cynyddol yn y dyfodol.

Ar lefel leol, dylai dangosyddion canlyniad ymwneud â gweithredoedd penodol a nodir yn eich cynllun ar gyfer ymaddasu.

Dynodi dangosyddion perthnasol i fonitro a mesur cynnydd

Gan ddefnyddio'r rhestr o ddangosyddion posibl isod fel canllaw, gallech ddymuno creu rhestr o ddangosyddion ar gyfer pob un o'ch gweithredoedd ymaddasu.

Gwasanaethau sector cyhoeddus	Dangosyddion
Dangosyddion cynnydd	Mae'r mesurau canlynol yn fan cychwyn ar gyfer datblygu dangosyddion i fesur cynnydd eich sefydliad wrth gynllunio ymaddasu
Rhan 1: Dechrau	• Nifer/canran o bolisiâu/rhaglenni/ cynlluniau busnes/cofrestri risg sy'n ymdrin ag ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. • Ymrwymïadau cyhoeddus a wneir i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. • Cyfran o dimau uwch reolwyr sy'n ymwneud â'r broses cynllunio i ymaddasu. • Gweledigaeth ar gyfer sefydliad ymaddasol/gwydn wedi'i datblygu. • Cyfran o Gynllunio Cymunedol. • Partneriaid sy'n ymwneud â grŵp ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.
Rhan 2: Ymchwilio	• Dynodi tueddiadau newid yn yr hinsawdd. • Cyfran o'r gwasanaeth/ardaloedd daearyddol/problemau y dynodwyd effeithiau newid yn yr hinsawdd ar eu cyfer. • Asesiadau peryglon wedi'u cwblhau. • Asesiadau risg wedi'u cwblhau. • Canran o bartneriaid allweddol sydd wedi dynodi peryglon a risgiau tywydd a hinsawdd mawr.
Rhan 3: Cynllunio	• Nodau ac amcanion wedi'u sefydlu. • Opsiynau ar gyfer ymaddasu wedi'u dynodi. • Data sylfaenol a dangosyddion wedi'u dynodi. • Cynllun gweithredu i ymaddasu wedi'i lunio. • Canran o weithgareddau ymaddasu wedi'u gwreiddio mewn strategaethau, cynlluniau a rhaglenni eraill.
Rhan 4: Gweithredu	• Canran o staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth newid yn yr hinsawdd. • Nifer o gynlluniau peilot a gwblhawyd. • Canran o weithgareddau ymaddasu a weithredwyd.
Rhan 5: Monitro ac Adolygu	• Cynllun ar gyfer ymaddasu wedi'i adolygu. • Cynnydd ar y cynllun ar gyfer ymaddasu wedi'i adrodd.

Disgrifir dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu dangosyddion yn Adroddiad Cynnydd Blynyddol Cyntaf Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r Datganiad Polisi Paratoi ar gyfer Hinsawdd sy'n Newid yn cyfeirio at y modd y bydd y prosesau yn y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio i asesu parodrwydd o ran lefel gweithredu prosesau ymaddasu o fewn sefydliad. Gallai fod yn ddefnyddiol i'ch sefydliad ddatblygu ei gyfres ei hun o ddangosyddion neu ddilyn dull Llywodraeth Cymru.

Pennod 10: Creu Cynllun Gweithredu i Ymaddasu

Diben	Datblygu cynllun gweithredu i ymaddasu.
Cynnwys	• Datblygu strwythur • Casglu cynnwys • Ymgynghori • Lansio'r cynllun • Gwreiddio'r gweithredoedd mewn dogfennau strategol

Cyflwyniad

Dyma'r cam lle mae'r holl ymchwil, dadansoddi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dod at ei gilydd i'ch helpu chi i ddatblygu cynllun gweithredu i ymaddasu penodol a/neu ddull strategol sy'n cynnwys gweithredoedd ymaddasu ar draws cynlluniau a pholisïau eich sefydliad. Bydd y cynllun/gweithredoedd integredig yn sail i waith ymaddasu eich sefydliad ac yn darparu offeryn cyfathrebu defnyddiol i gyfathrebu'r angen i ymaddasu i gynulleidfa ehangach, a dangos ymrwymiad eich sefydliad. Bydd y cynllun/gweithredoedd integredig yn sail ar gyfer monitro a mesur cynnydd yn Rhan 5.

Nid oes angen datblygu cynllun gweithredu ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd ar wahân, ond bydd yn eich galluogi i ddod â'r achos busnes a'r cynllun gweithredu i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd at ei gilydd mewn un ddogfen strategol. Dylai'r cynllun ar gyfer ymaddasu fod yn ddogfen gryno sy'n egluro cyd-destun y gweithredu, eich gweledigaeth, nodau, amcanion, blaenoriaethau ymaddasu allweddol eich sefydliad, pwy sy'n gyfrifol am eu gweithredu, ac amserlen a threfniadau cyflenwi. Drwy weithio drwy'r canllawiau hyn, byddwch eisoes wedi paratoi'r rhan fwyaf o'r cynllun.

Gallai'r cynllun ar gyfer ymaddasu fod yn ddogfen ar wahân, ond dylai ymaddasu sefydlu egwyddorion o fewn dogfennau strategol corfforaethol eraill, megis y gofrestr risgiau, cynlluniau corfforaethol a maes gwasanaeth.

Datblygu'r strwythur, a thynnu cynnwys y cynllun ar gyfer ymaddasu ynghyd

Dylech strwythuro'r cynllun ar gyfer ymaddasu mewn modd sy'n gwneud synnwyr i'ch sefydliad, cydweithwyr a'r bobl sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun. Bydd cynnwys y rhanddeiliaid hynny a fydd yn gyfrifol am weithredu'r camau yn y gwaith o ddrafftio'r cynllun ymaddasu terfynol yn galluogi iddynt ei berchnogi, a bydd yn eu hannog i helpu ei weithredu. Dylai cydweithwyr, partneriaid a rhanddeiliaid allweddol eisoes fod wedi cyfrannu at ddatblygu rhannau o'r cynllun megis adolygu gwybodaeth ar yr hinsawdd a chynnal yr asesiad risg. Gallech eu cynnwys

ymhellach yn y gwaith o ddrafftio'r cynllun terfynol drwy ddirprwyo cyfrifoldeb am ddrafftio adrannau penodol o'r cynllun, neu ymgynghori â hwy ar fersiynau drafft.

Mae Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU yn awgrymu bod cynllun ar gyfer ymaddasu effeithiol yn tynnu ar gyfuniad o agweddau at ymaddasu:

- Ymdopi â'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amrywioldeb ac eithafion yr hinsawdd bresennol.
- Cyflwyno mesurau ymaddasu'n gynyddol - yr hyn sy'n gwneud synnwyr heddiw, ond ei gynllunio i ganiatáu addasiadau cynyddol.
- Gwella hyblygrwydd neu wydnwch buddsoddiadau anodd eu gwyrddio.
- Cyflwyno mesurau ymaddasu i gyd-fynd â chynnal a chadw a/neu uwchraddio a gynllunnir.

Yn y tabl isod ceir strwythur enghreifftiol ar gyfer eich cynllun ar gyfer ymaddasu, sy'n amlygu'r adrannau perthnasol yn y Canllawiau fydd yn eich galluogi i'w gwblhau.

Cynnwys y Cynllun ar gyfer ymaddasu	Disgrifiad ac adrannau perthnasol y Canllawiau hyn
Rhagair gan uwch reolwr	Bydd cynnwys datganiad o gefnogaeth gan uwch reolwr, aelod o'r bwrdd a/neu bartner yn helpu i ddangos i eraill fod cefnogaeth ar lefel uchel i'r cynllun gweithredu a bydd yn annog eraill i weithredu.
Yr achos dros weithredu	Beth yw amcanion eich sefydliad a sut y bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y sefydliad, y gwaith y mae'n ei wneud a'r gwasanaethau a ddarperir. Pennod 3 (nodyn briffio)
Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar eich sefydliad	Beth yw effeithiau a risgiau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol i'ch sefydliad a'i waith? Dylai'r adran hon fod yn fanylach na'r adran uchod o ran effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Neu gellid ei gyflwyno fel atodiad manwl i'r cynllun gweithredu. Penodau 2, 4, 5 a 6
Gweledigaeth a strategaeth	Beth yw gweledigaeth y sefydliad am sefydliad gwydn? Beth yw'r nodau ac amcanion ar gyfer gwireddu'r weledigaeth? Pennod 7
Gweithredu	Pa gamau y dylid eu cymryd i ymdrin ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a gwireddu gweledigaeth ac amcanion y sefydliad ar gyfer ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd? Pennod 8 Pwy sy'n gyfrifol am y gweithredu? Gweler templed matrices gweithredu isod

Cynnwys y Cynllun ar gyfer ymaddasu	Disgrifiad ac adrannau perthnasol y Canllawiau hyn
Cyllid	Beth yw cost gweithredu i ymaddasu, a sut bydd yn cael ei gyllido? Pennod 8
Rheolaeth a llywodraethu	Sut caiff cynnydd ei fonitro? Pennod 9 Sut caiff gweithredu ei fonitro, ei adolygu a'i adrodd ? Rhannau 4 a 5

Ar gyfer pob gweithred mae'n bwysig dynodi pwy fydd yn gyfrifol am weithredu, amserlen gweithredu, costau a chyllido ei weithrediad a sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro.

Datblygu eich tabl gweithredu i ymaddasu

Mae'r tabl isod yn cynnig templed ar gyfer crynhoi eich gweithredu i ymaddasu:

Effaith	Canlyniad/ problem/risg	Gweithred	Arweinydd cyfrifol	Amserlen	Cost a chyllid	Dangosydd a data sylfaenol

Ymgynghori ar y cynllun gweithredu i ymaddasu

Mae gan lawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus drefniadau ymgynghori ffurfiol, a lle bo'n briodol, trefniadau ymgynghori gwleidyddol. Dylid defnyddio'r rhain i ymgynghori ar y cynllun ar gyfer ymaddasu.

Cyfeiriwch at waith cynharach a wnaed fel rhan o Bennod 3 i ddynodi'r rhanddeiliaid y dylid eu cynnwys mewn prosesau ymgynghori.

Yn dilyn ymgynghori, gellir paratoi'r cynllun gweithredu i ymaddasu terfynol a'i gyflwyno am gymeradwyaeth gan benderfynwyr ar lefel uchel yn eich sefydliad.

Lansio'r cynllun ar gyfer ymaddasu

Mae lansio'r cynllun ar gyfer ymaddasu yn cynnig llwyfan delfrydol i gyhoeddi ymrwymiad eich sefydliad i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd. Gallech ddymuno lansio'r cynllun ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd mewn ffyrdd gwahanol, megis i'r staff sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am weithredu'r cynllun, staff eraill, rhanddeiliaid â diddordeb yn y cynllun, a'r cyhoedd.

Nid oes un ffordd benodol i lansio'r cynllun. Bydd yn dibynnu ar ba gyhoeddusrwydd a digwyddiadau sydd wedi'u trefnu yn ystod cyfnod datblygu'r cynllun, cyhoeddusrwydd arall ar yr un pryd, a pha adnoddau sydd ar gael.

Gall cynadleddau, gweithdai, cyfarfodydd, cylchlythyrau a datganiadau i'r wasg oll ffurfio rhan o'r lansio.

Ymwreiddio gweithredu'r newid yn yr hinsawdd mewn dogfennau strategol

Pa un a ydych chi wedi dewis datblygu cynllun ar gyfer ymaddasu ar wahân ai peidio, mae'n bwysig sicrhau bod pwysigrwydd ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd yn cael ei gydnabod, a bod gweithredoedd i ymaddasu yn cael eu cynnwys mewn dogfennau strategol eraill. Bydd yn galluogi cydweithwyr a phartneriaid eraill sy'n gweithio mewn meysydd gwahanol i ganfod cysylltiadau rhwng ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a materion eraill, a sut gall ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd helpu i gyflenwi blaenoriaethau strategol eraill.

Ym Mhennod 1, byddwch eisoes wedi nodi'r polisiau a'r cynlluniau gweithredu hynny sy'n cynnwys ymrwymadau a gweithredoedd i alluogi ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd. Byddwch hefyd wedi nodi'r meysydd hynny lle gellid cryfhau polisiau a chynlluniau gweithredu cyfredol. Nawr eich bod wedi paratoi'r cynllun ar gyfer ymaddasu a derbyn cefnogaeth ar lefel uchel i'w weithredu mae'n syniad da sicrhau cwrdd ehangach iddo, drwy weithio gyda chydweithwyr i ymwreiddio ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd mewn dogfennau strategol eraill. Gallai cyfleoedd allweddol i wneud hynny gynnwys:

- Datblygu ac ymgynghori ar strategaethau newydd.
- Adolygu a diwygio strategaethau presennol.
- Ystyriaeth gynhwysfawr i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd fel rhan o brosesau Asesu Amgylcheddol Strategol.
- Datblygu cynlluniau gweithredu ategol neu ganllawiau atodol.
- Gweithredu camau penodol e.e. gwariant rhaglen cyfalaf, lle gellid dylanwadu ar ddatblygiadau unigol.

Gallech geisio sicrhau bod ymrwymadau i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu cydnabod mewn gwahanol rannau o strategaethau a pholisiau, o'u gweledigaeth i'w hamcanion a'u cynlluniau gweithredu.

Rhaid cael Asesiad Strategol Amgylcheddol ar gyfer pob cynllun, rhaglen a strategaeth gyhoeddus sydd â'r potensial i greu effeithiau amgylcheddol sylweddol. Er bod newid yn yr hinsawdd yn ehangach na'r amgylchedd yn unig, fel y nodwyd yn gynharach, mae'r Asesiad yn darparu offeryn defnyddiol ar gyfer ymwreiddio ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd mewn dogfennau strategol eraill. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi llunio canllawiau ar sut y gellir ystyried materion yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd mewn Asesiadau o'r fath yng Nghymru a Lloegr.²

² Strategic Environmental Assessment and Climate Change: Guidance for Practitioners.
<http://www.environment-agency.gov.uk/research/policy/40121.aspx>